

**GRŴP CYSWLLT CYMUNEDOL : TRAC RASIO MÔN
ANGLESEY RACE CIRCUIT: COMMUNITY LIAISON GROUP.**

**8/03/2017
16.00 – 17.00**

Trac Rasio Môn / Anglesey Race Circuit.

<p><u>Presennol / Present</u></p> <p>Cynghorydd Delyth Owen, Cyngor Cymuned Llanfaelog [DO](Cadeirydd / Chair) Cynghorydd Keith Woods, Cyngor Cymuned Aberffraw [KW] Mr Andrew Hughes, Trac Môn [AH] Mr Huw Thomas, Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) [HAT] Miss Ceri Woodcock, CSYM [CW]</p>	
<p>1. <u>Ymddiheuriadau / Apologies</u></p> <p>Cynghorydd Richard Stallwood, Cyngor Cymuned Aberffraw [RS] Mr Alun Owen – AHNE: Cyngor Sir Ynys Môn [AO] Cynghorydd Emma Roberts, Cyngor Cymuned Llanfaelog [ER] Ms Annette Freeman, Trac Môn [AF] Mr Richard Peacock, Trac Môn [RP] Mr Andrew Crighton, Trac Môn [AC]</p>	
<p>2. <u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi</u></p> <p>Camgymeriad teipio – Cynghorydd Keith Wood, cywirwyd i Woods. Cywirwyd yn y cofnodion blaenorol a'r Cylch Gorchwyl.</p> <p>Eitem 3, diweddariad gan Gyngor Cymuned Llanfaelog. Trafodwyd croesfan sebra fel dull o reoli traffig. Yn dilyn hynny, anfonwyd e-bost at adran Briffyrdde Cyngor Sir Ynys Môn ond nid oes unrhyw ddatblygiadau pellach hyd yn hyn. GWEITHREDU: HAT i godi'r mater gyda'r Adran Briffyrdde.</p> <p>Erthygl yn y 'Holyhead and Anglesey Mail' ar 8 Mawrth 2017 ynglŷn â chynigion i gyflwyno mesurau tawelu traffig newydd yn y Fali. Ystyriwyd y byddai'n briodol dilyn y datblygiadau gan y gellid eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill.</p> <p>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 14 Medi 2016 fel rhai cywir a therfynol.</p>	<p>2. <u>Minutes of previous meeting and matters arising.</u></p> <p>Typing error – Cllr Keith Wood, corrected to Woods. Corrections in previous minutes and Terms of Reference made.</p> <p>Item 3, update from Llanfaelog Community Council, Zebra crossing discussed as a traffic management intervention. This consideration was followed up with Highways department at Anglesey County Council via email, to date no further developments. ACTION: HAT to follow up with Highways Department.</p> <p>Article in Holyhead and Anglesey Mail on 8th March 2017 regarding proposals to introduce new traffic calming measures in Valley. Considered appropriate to follow developments which could be introduced in other areas.</p> <p>Minutes of meeting 14th September 2016 agreed as correct and finalised.</p>
<p>3. <u>Adroddiad a sylwadau gan y Cynghorau Cymuned</u></p>	<p>3. <u>Report and observations from the Community Council(s).</u></p>

<p><u>Cyngor Cymuned Aberffraw – KW</u> Ddim yn ymwybodol o unrhyw bryderon na chwynion ar hyn o bryd. Derbyniwyd adborth cadarnhaol am y diwrnod trac rali cross a gynhaliwyd yn Trac Môn.</p> <p><u>Cyngor Cymuned Llanfaelog</u> Dim i'w adrodd ar hyn o bryd. Yn bwriadu edrych ymhellach ar ddulliau tawelu traffic.</p>	<p><u>Aberffraw Community Council – KW</u> Not aware of any concerns or complaints at present. Positive feedback had been received regarding the rally cross track day at Anglesey Circuit.</p> <p><u>Llanfaelog Community Council</u> No update at present. Intending to look into traffic calming methods further.</p>
<p>4. <u>Adroddiadau a sylwadau gan Trac Môn</u></p> <p>Yn ddiweddar mae Trac Môn wedi ennill gwobr fawreddog sef Gwobr Amgylcheddol y Motor Sport Association, a chafodd y wobwr sylw yn y cyfryngau.</p> <p>GWEITHREDU: cynrychiolwyr CSYM i gysylltu â swyddogion y wasg i wirio a yw'r Awdurdod wedi tynnu sylw at y wobwr.</p> <p>Cyhoeddwyd deunydd hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth am y trac a'r digwyddiadau. Cadarnhawyd bod calendr digwyddiadau 2017 yn debyg i galendr 2016.</p> <p>Cadarnhawyd na fydd ras 24 awr ceir 2CV yn cael ei gynnal yn Trac Môn yn 2017, gan fod lleoliad y digwyddiad wedi newid. Cynhelir Drift Matsuri ddiwedd mis Hydref 2017. Cytunwyd ar ddyddiad ras y cofio 2017, sef 11 a 12 Tachwedd 2017.</p> <p>Mae'r trac rasio wedi derbyn dyddiadau / amseroedd gwasanaethau'r eglwys.</p>	<p>4. <u>Report and observations from Anglesey Circuit</u></p> <p>Anglesey Circuit have recently won a prestigious award, 'Motor Sport Association, Environmental Award', various media coverage regarding the award.</p> <p>ACTION: IACC representatives to follow up with press officers whether the Award has been highlighted by the Authority.</p> <p>Promotional material been published to increase awareness of the circuit and fixtures. It was confirmed that the 2017 fixtures calendar is similar to the 2016 calendar.</p> <p>Confirmed the 2CV's 24 hour race will not be held at Anglesey Circuit during 2017, event location has changed. Drift Matsuri will be held at the end of October 2017. Race of remembrance 2017 date has been agreed, 11th & 12th November 2017.</p> <p>The dates / times of church service have been obtained by the circuit.</p>
<p>5. <u>Adroddiad a sylwadau gan Gyngor Sir Ynys Môn</u></p> <p>Dim adroddiadau penodol / sylwadau i'w gwneud. DO i anfon e-bost at HAT ynglŷn â'r dulliau Tawelu Traffig a drafodwyd yn y cyfarfod er mwyn iddo godi'r mater gyda'r Adran Briffyrdd.</p>	<p>5. <u>Report and observations from Anglesey County Council</u></p> <p>No specific reports / observations to make. DO to email HAT regarding Traffic Calming methods discussed in previous meeting to follow up with the Highways Department.</p>
<p>6. <u>Gofynion Iaith Gymraeg</u></p> <p>Esboniodd HAT bod CSYM wedi ymrwmo i Safonau'r Iaith Gymraeg a gofynion y Safonau. Felly, am fod CSYM yn rhoi</p>	<p>6. <u>Welsh Language Requirements</u></p> <p>HAT explained IACC commitment to the Welsh Language Standard and the requirements of the Standard. Therefore, as</p>

<p>cefnogaeth weinyddol i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol, mae'n rhaid i'r grŵp lynu at y safonau.</p> <p>Cadarnhawyd bod diweddariad gan y Grŵp Cyswllt yn eitem benodol ar raglen cyfarfodydd Cyngor Cymuned Aberffraw a Llanfaelog, felly mae'r ddau Gyngor Cymuned yn bwriadu trafod gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg yn ystod eu cyfarfodydd nesaf a chynnig bod copïau dwyieithog o gyfarfodydd y grŵp yn cael eu rhoi ar wefannau'r cynghorau cymuned.</p> <p>GWEITHREDU: Hysbysu CSYM a fydd cofnodion yn cael eu rhoi ar y gwefannau.</p> <p>Roedd pawb yn cytuno i dderbyn y rhaglen a gohebiaeth cyn y cyfarfodydd yn ddwyieithog yn cynnwys. holl ddogfennaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar y we, h.y. copïau o'r rhaglen, cofnodion cyfarfodydd.</p> <p>Diolchodd y grŵp i Gyngor Sir Ynys Môn am ddarparu cefnogaeth weinyddol i'r grŵp.</p>	<p>the IACC provide secretarial support to the Community Liaison Group, the group must adhere to the standard.</p> <p>It was confirmed that an update from the Liaison Group is a specific item on both Aberffraw and Llanfaelog Community Council meetings, therefore both Community Council's propose to discuss during the next meetings the requirements of the Welsh Language Standard and propose that final bilingual copies of the group meetings are uploaded onto the community council website.</p> <p>ACTION: IACC to be updated accordingly whether minutes are to be uploaded onto the websites.</p> <p>All in agreement, agenda and correspondence ahead of meetings will be bilingual, including all documentation that may be available for members of the public, i.e. copies of agenda or meeting minutes on the internet.</p> <p>The group thanked IACC for providing the secretariat support for the group.</p>
<p>7. <u>Adolygu Cylch Gorchwyl y Grŵp</u></p> <p>Roedd pawb yn cytuno i gynnal cyfarfodydd ym mis Mawrth, Mehefin, a Medi. Roedd pawb yn cytuno nad oes rhaid nodi'r misoedd penodol yn y cylch gorchwyl.</p> <p>Gwahoddir Alun Roberts o'r Adran Briffyrdd i gyfarfodydd y grŵp yn ôl yr angen.</p>	<p>7. <u>Review of Group Terms of Reference.</u></p> <p>All in agreement, meetings to convene March, June and September. All in agreement not necessary to place specific months within the terms of reference.</p> <p>Alun Roberts of Highways Department will be invited to the group meetings as and when required.</p>
<p>8. <u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p>Dywedodd AH fod Scarisbrick and District Armada Motor Cycle Club wedi rhoi rhodd o £4000 i Ambiwllans Awyr Cymru yn dilyn digwyddiad yn y ras Honda 90's Plop Endurance yn Trac Môn pan alwyd yr Ambiwllans Awyr.</p> <p>Bydd AH a KW yn cymryd rhan yn nigwyddiad codi arian Clwb Modur Ynys Môn 'Sidecar Challenge' ar 23 Mawrth 2017.</p> <p>Cadarnhaodd DO a KW bod y diwrnodau i ysgolion yn y trac wedi cael croeso da iawn a diolchwyd i Trac Môn am y cyfle. Bydd Trac Môn yn hysbysu'r Cyngor Cymuned</p>	<p>8. <u>AOB.</u></p> <p>AH stated £4000 was donated by Scarisbrick and District Armada Motor Cycle Club to Welsh Air Ambulance following an incident that the Air Ambulance attended to during a Honda 90's Plop Endurance Race at Anglesey Circuit.</p> <p>AH and KW will be taking part in the Anglesey Motor Cycle Club Fundraiser Sidecar Challenge on the 23rd March 2017.</p> <p>DO and KW confirmed that the school days at the track had been very well received, Anglesey Circuit thanked for opportunity. Anglesey Circuit will inform Community</p>

<p>am ddyddiadau unrhyw ddyddiau tebyg a drefnir yn y dyfodol.</p> <p>Er gwybodaeth, dywedodd HAT bod Adran Iechyd yr Amgylchedd yn monitro sŵn yn ardal Rhosneigr dros gyfnod hir er mwyn asesu patrymau sŵn o safle Llu'r Awyr y Fali. Mae CSYM yn cymryd patrymau sŵn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio.</p> <p>Gosodwyd offer monitro sŵn ar eiddo ger y llain glanio ac unwaith fydd y data wedi ei adolygu a'i ddadansoddi bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lleol.</p>	<p>Council of any future proposed dates for similar days.</p> <p>For information, HAT advised that the Environmental Health Department were undertaking long term noise monitoring in the Rhosneigr area to assess noise contours from RAF Valley. IACC take into consideration which use noise contours for planning purposes.</p> <p>Noise monitoring equipment has been installed at a property near the runway, once the data has been reviewed and analysed the Environmental Health department will publish on the Local Authority website.</p>
<p>9. <u>Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>14 Mehefin 2017 am 4.00 o'r gloch.</p>	<p>9. <u>Next Meeting.</u></p> <p>14th June 2017 at 4.00pm</p>
<p><u>CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • HAT i gysylltu â'r Adran Briffyrdd mewn perthynas â'r ymholiad a wnaethpwyd gan DO ynglŷn â rheoli traffig. • Cynrychiolwyr CSYM i gysylltu â swyddog y wasg yr Awdurdod Lleol i holi a yw'r Awdurdod wedi tynnu sylw at Wobr Amgylcheddol y Motor Sport Association. • DO a KW i roi gwybod i CSYM a fydd cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu rhoi ar wefannau'r Cyngorau Cymuned. 	<p><u>SUMMARY OF ACTIONS</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • HAT to follow up with Highways Department traffic management intervention enquiry made by DO. • IACC representatives to follow up with Local Authority press officer whether the Motor Sport Association, Environmental Award has been highlighted by the Authority. • DO & KW to update IACC whether meeting minutes are to be uploaded onto the Community Council websites.

**Derbyniwyd cofnodion cyfarfod fel rhai cywir a therfynol ar 14.06.17 /
Minutes of meeting agreed as correct and finalised on 14.06.17**